Abraham a'r tri dieithryn

Genesis 18

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Roedd Duw wedi newid enw Abram i Abraham, am ei fod wedi ei wneud yn dad llawer o bobloedd gwahanol. (Genesis 17:5) Newidiwyd enw Sarai i Sara ac addawodd Duw ei bod hi am roi genedigaeth i fab er ei bod hi'n 90 oed. (Genesis 17:15)		
1	Dyma'r ARGLWYDD yn ymddangos i Abraham wrth goed derw Mamre. Roedd yr haul yn boeth ganol dydd, ac roedd yn eistedd wrth y fynedfa i'w babell. Gwelodd dri dyn yn sefyll gyferbyn ag e.		
2	Ymgrymodd Abraham yn isel o'u blaenau a dwedodd, "Ga i'r fraint o'ch gwahodd chi i aros yma am ychydig? Cewch ddŵr i olchi eich traed, a chyfle i orffwys dan y goeden yma. Af i nôl ychydig o fwyd i'ch cadw chi i fynd. Cewch fynd ymlaen ar eich taith wedyn."		

3	Brysiodd Abraham i mewn i'r babell at Sara, a dweud, “Brysia, cymer sachaid o flawd mân i wneud bara.” Wedyn dyma Abraham yn rhuthro allan at y gwartheg, ac yn dewis llo ifanc. Rhoddodd y llo i'w was i'w baratoi ar frys. Pan oedd y bwyd yn barod, cymerodd Abraham y llaeth a'r cig wedi ei rostio a'i osod o'u blaenau.	
4	“Ble mae dy wraig, Sara?” medden nhw wrth Abraham. “Fan yna, yn y babell,” atebodd yntau. A dyma un ohonyn nhw'n dweud, “Bydda i'n dod yn ôl yr adeg yma'r flwyddyn nesa, a bydd Sara yn cael mab.”	
5	Roedd Sara y tu ôl i ddrws y babell, yn gwrando ar hyn i gyd. (Roedd Abraham a Sara mewn oed, ac roedd Sara yn rhy hen i gael plant.) Pan glywodd hi beth ddywedwyd, roedd Sara'n chwerthin ynddi ei hun.	
6	A dyma'r ARGLWYDD yn dweud wrth Abraham, “Pam wnaeth Sara chwerthin, a dweud ‘Ydw i'n mynd i gael plentyn a minnau mor hen?’ Dw i, yr ARGLWYDD, yn gallu gwneud unrhyw beth. Bydda i'n dod yn ôl fel y dwedais i, yr adeg yma'r flwyddyn nesa, a bydd Sara'n cael mab.” Roedd Sara wedi dychryn, a dyma hi'n ceisio gwadu'r peth, “Wnes i ddim chwerthin,” meddai hi. “Dydy hynny ddim yn wir,” meddai'r ARGLWYDD. “Roeddet ti yn chwerthin.”	

7	Pan gododd y dynion i fynd roedd Abraham wedi cerdded gyda nhw beth o'r ffordd.	
8	A dyma'r ARGLWYDD yn meddwl, “Ddylwn i guddio beth dw i'n mynd i'w wneud oddi wrth Abraham? Mae cenedl fawr gref yn mynd i ddod o Abraham, a bydd gwledydd y byd i gyd yn cael eu bendithio trwyddo."	
9	Dyma'r ARGLWYDD yn dweud wrth Abraham, “Mae pobl yn cwyno yn ofnadwy yn erbyn Sodom a Gomorra, eu bod nhw'n gwneud pethau drwg iawn!	
10	Dw i am fynd i lawr i weld os ydy'r cwbl sy'n cael ei ddweud yn wir ai peidio. Bydda i'n gwybod wedyn.”	
11	Aeth y dynion yn eu blaenau i gyfeiriad Sodom. Roedd Lot a'i deulu yn byw yno.	

12	Arhosodd Abraham yn sefyll o flaen yr ARGLWYDD.	
13	Gofynnodd Abraham, "Fyddet ti ddim yn cael gwared â'r bobl dda gyda'r bobl ddrwg, fyddet ti? Beth petai pum deg o bobl yno sy'n byw yn iawn. Fyddet ti'n dinistrio'r lle yn llwyr a gwrthod ei arbed er mwyn y pum deg yna? Alla i ddim credu y byddet ti'n gwneud y fath beth — lladd pobl dduwiol hefo pobl ddrwg, a thrin y drwg a'r da yr un fath! Onid ydy Barnwr y byd yn gwneud beth sy'n iawn?”	
14	A dyma'r ARGLWYDD yn ateb, “Os bydda i'n dod o hyd i bum deg o bobl dduwiol yn y ddinas, bydda i'n arbed y ddinas er eu mwyn nhw.”	
15	Siaradodd Abraham eto, “Gan fy mod i wedi mentro agor fy ngheg, meistr, a dw i'n gwybod nad ydw i'n neb, beth petai yna bump yn llai na hanner cant? Fyddet ti'n dinistrio'r ddinas am fod pump yn eisiau?”	
16	A dyma fe'n ateb, “Wna i ddim dinistrio'r ddinas os bydd pedwar deg pump yno.”	

17	A dyma Abraham yn dweud eto, “Beth am bedwar deg?” A dyma fe'n ateb, “Wna i ddim ei dinistrio os bydd pedwar deg yno.”	
18	Ac meddai Abraham, “Plîs paid digio hefo fi, meistr. Beth os oes tri deg yno?” A dyma fe'n ateb, “Wna i ddim ei wneud os bydd tri deg yno.”	
19	Dw i'n mynd i fentro agor fy ngheg eto,” meddai Abraham, “Beth os oes dau ddeg yno?” A dyma fe'n ateb “Wna i ddim ei dinistrio os bydd dau ddeg yno.”	
20	A dyma Abraham yn dweud eto, “Meistr, plîs paid â digio os gwna i siarad un waith eto, am y tro ola. Beth os oes deg yno?”	
21	A dyma fe'n ateb, “Wna i ddim ei dinistrio os bydd deg yno.”	

22	Ar ôl iddo orffen siarad gydag Abraham dyma'r ARGLWYDD yn mynd i ffwrdd. Yna aeth Abraham adre.	
23	Cyfieithwyd gan www.beibl.net	